# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 30 Mehefin 2022**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Neville Hughes

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam

**Cyngor Sir**
Y Cynghorydd Rheinallt Puw

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Dyfrig Jones

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Dyfrig Jones.
   **Ymddiheuriadau –** Cyngr. Walter Williams, Einir Williams, Catrin Wager a Huw Jones.
   Cafwyd eiliad o dawelwch i gofio am y diweddar Griff Morris a oedd yn aelod gwerthfawr o'r Cyngor Cymuned am llawer o flynyddoedd. Gweithiodd Griff yn ddi-flino ar nifer o prosiectau cymunedol, a bydd yn golled enfawr i'w deulu ac i gymuned Dyffryn Ogwen. Y Clerc i ddanfon cerdyn cymdymdeimlad ar ran y Cyngor.

**2. Datgan Diddordeb**
Dim.

**3. Materion Brys**
Dim.

**4. Cofnodion**
Y Clerc i newid Ffordd Ffrydlas i Pant Glas o dan eitem 7. Yn dilyn yr addasiad yma, cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai 2022.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
Adroddwyd fod y Clerc wedi llunio rhestr o pwyntiau gweithredu ac wedi'i gylchredeg i'r holl aelodau, ac felly fod pawb wedi derbyn diweddariad ar y pwyntiau cyn y cyfarfod.

**5.1** Angen drych ar Ffordd Gerlan – Adroddwyd fod swyddog wedi bod allan i ymweld ar safle. Barn y Swyddog oedd na fyddai drych yn addas ar gyfer y lleoliad canlynol. Er hynny, mae'r adran yn llwyr ddeall ein pryder parthed i broblemau diogelwch ar y rhan yma o'r ffordd. Gan adnabod hynny, mi roedd y swyddog o'r farn y byddai gosod marciau ffordd ARAF/SLOW cyn y gornel yn fuddiol i amlygu'r sefyllfa ac yn gwella diogelwch. Mi fydd y gwaith yn cael ei ychwanegu ar eu rhaglen waith, gyda bwriad bydd y gwaith yn cael ei gyflawni o fewn 10 wythnos.
**5.2** Gordyfiant ar Ffordd Gerlan – y Clerc wedi cysylltu unwaith eto, ond dim ymateb hyd yn hyn. Adroddwyd fod y Cyng. Rheinallt Puw wedi cysylltu gyda Ian Morgan o'r adran Priffyrdd a fod y gwaith wedi gael ei ychwanegu i'r rhaglen waith.
**5.3** Rhos y Nant – problem gyda dŵr yn sefyll – Adroddwyd y Cyng. Rheinallt Puw ei fod wedi derbyn yr ymateb canlynol gan Gyngor Gwynedd: *Mae dyfnder y dwr rhwng 5 a 10mm ar ei waethaf mewn pant yn yr arwyneb, cyn iddo redeg i gwli gyfagos. Tydi ddim yn cyflwyno unrhyw risg i ddefnyddwyr y ffordd, ond mae'n niwsans yn enwedig i gerddwyr. Tydi ddim y gwarantu unrhyw sylw brys na chwaith yn deilwng o gael ei flaenoriaethu dros waith eraill ym Methesda. Felly ei roi ar ei'n rhaglen waith fydd y broblem yma i gael ei gyflawni fel mae ei'n adnoddau yn caniatáu. Un datrysiad posib yw i'r contractwr selio llwybrau osod haen denau o'r defnydd i lenwi'r pant. Fyddai hyn yn golygu bydd dim angen tyllu darn o'r ffordd sydd fel arall heb unrhyw nam arno.*
**5.4** CCTV Stryd Fawr – Cafwyd ddiweddariad gan y Clerc. Nodwyd ei bod wedi cyfarfod gyda Steven Edwards a Gerallt Hughes o Gyngor Gwynedd i geisio gwthio pethau yn ei flaen. Nodwyd y bydd angen ymgynghori gyda trigolion y Stryd a cymuned Bethesda, y Clerc i lythyru'r trigolion ac i drefnu noson agored yn ystod mis Medi.
**5.5** Arwyddion stryd – ar y gweill – y Clerc.
**5.6** Llinellau melyn ym Mhant Dreiniog a Pant Glas – Cyng. Rheinallt Puw.
**5.7** Drychau newydd ar Lon Groes a gwaelod Ty'n Ffridd – Y Cyng. Paul Rowlinson – ar y gweill.
**5.8** Cae Chwarae Pantdreiniog – Y clerc wedi archebu'r offer ac wedi derbyn dyfynbrisiau newydd ar gyfer yr offer a'r gwaith ffensio.
**5.9** Cyngor Gwynedd – Llinellau melyn Llwyn Bleddyn – ar y gweill – Y Clerc
**5.10** YGC – Sherpa Shelters – disgwyl am cynllun y lloches arfaethedig yn Nglan Ffrydlas – y Clerc i holi am ddiweddariad.
**5.11** Llinellau Melyn – man pasio ger Fynwent Coetmor a tu allan i rhif 3 Tanybwlch, Rachub – ar y gweill – y Clerc.

**6. Archwiliad Mewnol 2021-22**
**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad ac i ymrwymo i roi sylw i'r risgiau nodwyd a chymeryd y camau priodol i'w liniaru. Y Clerc i cylchredeg Ffurflenni Datganiad o Daliadau a Derbyn Swydd i'r holl aelodau.

**7. Ffurflen Flynyddol 2021-22**
Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gymeradwyo'r ffurflen. Y Cadeirydd a'r Clerc i'w arwyddo.

**8. Ffordd Llwyn Bleddyn a Mynediad i fynwent Coetmor** – Adroddwyd am llawer o bryderon ynglyn a'r ffordd, y Clerc i ddanfon pryderon y Cyngor ymlaen ac i ofyn wrth Cyngor Gwynedd i gynnal asesiad dioglewch ar y ffordd.

**9. Ethol Cynrychiolydd Bwrdd Neuadd Ogwen**
Cafwyd bleidlais a phenderfynwyd ethol y Cyng. Bleddyn Williams.

**10. Maes parcio Gerlan**
Dim diweddariad ar gael. Cytunwyd y bydd y Cyng. Einir Williams a'r Cadeirydd yn trefnu cyfarfod hefo Cyngor Gwynedd i geisio gwthio pethau ymlaen.

**11. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Mehefin 2022'
**11.1** Cyngor Gwynedd – Dehongli Safle Treftadaeth y Byd – y Cyngor wedi cytuno mewn egwyddor, cytunwyd y bydd Cyngor Gwynedd yn danfon y cynlluniau terfynol cyn ei cymeradwyo.
**11.2** Wynne Parry, Adra – Safle Stryd y Ffynnon – Y Clerc i gyfarfod y Cyngr. Ann Williams a Linda Brown ar y safle cyn gwneud penderfyniad.
**11.3** Yswiriant Zurich – Penderfynwyd adnewyddu'r yswiriant eto eleni.
**11.4** Cyngor Gwynedd – Ymgynghori ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd – y Clerc i ddanfon sylwadau'r Cyngor at Cyngor Gwynedd.

**12. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

**C22/0256/13/LL**
Brig y Nant, Lon Newydd Coetmor

Codi 18 tŷ, ffordd newydd a thirlunio
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C22/0163/13/DT**
4 Rhes Jams, Braichmelyn

Codi estyniad deulawr yn y cefn
**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau.

**C22/0141/13/RA**
Tir ger Llain y Pebyll, Bethesda

Rhyddhau amod 10 (ymchwiliad i nodi natur a lefel halogiad y safle) o ganiatad cynllunio C20/0018/13/LL
**Penderfyniad:** Amodau wedi'i rhyddhau yn llawn.

**C22/0327/16/AC**
Chwarel y Penrhyn

Cais o dan Adran 73 i amrywio amod 1 a 3 o ganiatad cynllunio C16/1164/16/MW
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C22/0336/16/MW**

Chwarel y Penrhyn

Cais ar gyfer estyniad i weithfeydd cloddio llechi

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C22/0393/13/LL**

Neuadd Ogwen, Bethesda

Dymchwel adeiladau allanol presennol a chodi ystafelloedd gweithgaredd yn eu lle

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**C22/0454/13/DT**

Ty Nain, 28 Erw Las, Bethesda

Dymchwel ystafell wydr gefn bresennol. Codi estyniad deulawr newydd i gefn ac ochr yr eiddo

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**C22/0557/13/DT**

4 Rhes Gerlan, Gerlan

Mae'r gwaith arfaethedig ar gyfer y cais hwn yn ymwneud â dymchwel y porth presennol yn 4 Teras Gerlan ac adeiladu porth newydd, yn cysylltu'r eiddo â'r Hen Garej. Bydd Yr Hen Garej wedyn yn cael ei drawsnewid yn 2 ystafell wely ychwanegol ac ystafell ymolchi i'w defnyddio gan 4 Teras Gerlan. Bydd y porth arfaethedig yn gweithredu fel coridor cysylltu, gan gysylltu'r ddau eiddo. Bydd Yr Hen Garej yn cael ei hadfer yn gan ddefnyddio deunyddiau naturiol, lleol. Bydd yr estyniad arfaethedig yn cael ei adeiladu gan ddefnyddio ffrâm bren lleol a'i orchuddio â charreg leol i gyd-fynd â'r Hen Garej.

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**Ceisiadau**

**C22/0475/13/DT**

| | |
|---|---|
| 8 Tyddyn Canol, Rachub | Estyniad deulawr arfaethedig yn y cefn<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |

**C22/0512/13/LL**

| | |
|---|---|
| 38 Ffordd Tanybwlch, Rachub | Addasu ac ymestyn modurdy presennol yn dy<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |

**C22/0256/13/LL**

| | |
|---|---|
| Brig y Nant, Coetmor New Road, Bethesda | Codi 18 ty, ffordd newydd a thirlunio<br>**Penderfyniad:** Gwrthwynebu (sylwadau wedi'i danfon eisoes) |

**13. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Scottish Power | BACS | Golau Nadolig | £41.65 |
| Scottish Power | BACS | Gorffwysfan – Trydan | £25.68 |
| Scottish Power | BACS | Gorffwysfan – Nwy | £102.19 |
| Menai Cleaning | BACS | Gorffwysfan – glanhau | £354.00 |
| Colin Jackson | BACS | Cynnal a chadw llwybrau | £2108.00 |
| Cyngor Gwynedd | BACS | Gosod diffib ar polyn, Ffordd Pant | £540.00 |
| Scottish Power | BACS | Gorffwysfan – Nwy | £42.67 |
| Bradite | BACS | Cynllun Harddu'r Stryd Fawr | £80.58 |
| John Wyn Jones | BACS | Cyflog mis Mehefin | £318.20 |

| | | |
|---|---|---|
| CThEM | BACS TWE mis Mehefin | £79.60 |